Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adolygiad Amgylcheddol Syml
# Eco-Sgolion

Lluniwyd yr adolygiad hwn fel ffordd i ddisgyblion darganfod beth sydd yn digwydd yn eu hysgol er mwyn helpu'r amgylchedd a chyflwyno  syniadau y byddent yn medru eu gweithredu i wneud eu hysgol yn fwy Ecogyfeillgar.

Gellir defnyddio'r adolygiad ar ei ben ei hun neu ar y cyd â dogfen adolygu fanylach a fyddai, efallai, yn ddefnyddiol i'r oedolion sydd ar y pwyllgor. Does dim angen rhoi gwên wrth bopeth; dim ond un ffordd yw hynny o helpu gyda rhai syniadau.

Dylai'r pwyllgor wedyn defnyddio'r canlyniadau i ddewis rhai pethau i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan eu rhoi mewn cynllun gweithredu. Cofiwch feddwl sut y byddwch yn medru dweud a ydych yn gwneud gwahaniaeth ai peidio.

Dyddiad cwblhau: ________________________________________

Cwblhawyd gan:___________________________________________

Allwedd:



Gall disgyblion ddarganfod yr atebion eu hunain drwy edrych o amgylch yr ysgol yn  ofalus. Efallai bydd angen i'r disgyblion ofyn i oedolyn er mwyn canfod yr atebion i'r cwestiynau hyn.



Mae angen ychydig mwy o ymchwiliad, efallai arolwg neu holiadur i ddisgyblion eraill.

Dull yw hwn o **fesur** yr effaith yr ydych yn ei gael ar yr amgylchedd, fel eich bod yn gallu dangos faint yr ydych chi'n gwella. Mae hyn yn rhan bwysig o fod yn Eco-Ysgol.




# Lleihau Gwastraff

## O amgylch yr ysgol

### Arbed

| | | |
|---|---|---|
| A yw'r rhan fwyaf o'r plant yn dod â'u cinio mewn bocsys y gallant eu defnyddio eto?   | Ydynt | Na |
| A yw'r athrawon yn llungopio ar ddwy ochr y papur pan mae'n bosibl?   | Ydynt | Na |
| Ydy'ch rhieni yn derbyn e-byst neu tects gan yr ysgol yn lle llythyr wedi ei brintio?   | Ydynt | Na |
| Ydy'r plant yn yr ysgol yn defnyddio gwellt plastig i yfed llaeth?   | Na | Ydym |
| Pan yfwch eich llaeth, ydy e'n cael ei arllwys o boteli mawr?   | Ydy | Na |

### Ailddefnyddio

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n defnyddio dwy ochr papur cyn ei roi yn y bin ailgylchu? (efallai fod gennych focs papur sgrap)   | Ydym | Na |
| A ydych chi'n ailddefnyddio hen focsys a phacedi grawnfwyd i wneud modelau yn y dosbarth?   | Ydym | Na |
| A oes gennych chi siop gyfnewid neu sêl sborion ar gyfer gwisg ysgol, gemau, DVDau neu lyfrau?      | Oes | Nac Oes |

## Ailgylchu

Pa rai o’r rhain ydych chi’n eu hailgylchu?



Batris


Caniau



Plastig


Dillad



Papur



Cardbord



Ffonau




Stampiau


Sbectolau


Bwyd wedi ei goginio


Cetris inc


Ysgrifbinnau

| | | |
|---|---|---|
| Ydy’r Ysgol yn ailgylchu popeth a allai?   | Ydynt | Na |
| A oes gennych fin compost sy’n cael ei ddefnyddio?   | Oes | Na |
| A ydych chi’n defnyddio papur toiled a thyweli papur wedi eu hailgylchu yn yr ysgol?   | Ydym | Na |
| A yw pawb yn yr ysgol yn ailgylchu popeth sydd yn bosibl ei ailgylchu?   | Ydynt | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydy’r ysgol wedi rhedeg prosiect i helpu’ch teuluoedd arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu mwy yn y tŷ?   | Ydynt | Na |

**Yn ein Byd**


| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd i'r pethau rydych chi'n eu hailgylchu?   | Ydym | Na |
| Ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd i'r gwastraff rydych chi'n eu rhoi yn y bin sbwriel?   | Ydym | Na |

<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>



# Sbwriel

## O amgylch yr ysgol

| | | |
|---|---|---|
| A fedrwch chi ddod o hyd i sbwriel ar y llawr yn yr ysgol?  | Na | Gallwn |
| A fedrwch chi ddod o hyd i sbwriel ar y llawr y tu allan i'r ysgol?  | Na | Gallwn |
| A yw'r plant i gyd yn rhoi eu sbwriel yn y bin amser chwarae?  | Ydynt | Na |
| A oes rhai biniau yn orlawn?  | Na | Oes |
| Os ydych chi'n casglu sbwriel, ydych chi'n cyfri'r nifer o ddarnau neu pwyso (Kg) y bagiau?  | Ydym | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi'n gweld sbwriel ar y llawr ar y ffordd i'r Ysgol?  | Na | Ydym |
| Oes yna ddigon o finiau sbwriel ar gael rhwng eich tŷ a'r Ysgol?  | Oes | Na |
| Ydy'r dosbarth neu'r Ysgol yn mynd allan i gasglu sbwriel yn y gymuned?  | Ydyn | Na |






**Yn ein Byd**

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi gyd yn gwybod pam na ddylem ni ollwng sbwriel ar y llawr?    | Ydym | Na |
| Ydy'r plant yn deall sut mae sbwriel yn cael effaith ar anifeiliaid y môr a'r ddaear ar draws y byd?   | Ydyn | Na |

**<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>**



# Ynni

| | | |
|---|---|---|
| A yw’r goleuadau bob amser yn cael eu diffodd pan mae’r dosbarth yn wag?  | Ydyn | Na |
| Os ydych yn y dosbarth ac mae’n heulog, a yw’r goleuadau’n cael eu diffodd?  | Ydyn | Na |
| A yw sgriniau’r cyfrifiaduron bob amser yn cael eu diffodd pan nad oes neb yn eu defnyddio?  | Ydyn | Na |
| A ydych yn gwneud yn siŵr bod y goleuadau a’r cyfrifiaduron wedi eu diffodd yn ystod yr egwyl ac amser cinio?  | Ydym | Na |
| A oes lleni neu fleindiau ar y ffenestri i gadw’r gwres i mewn yn ystod y nos?  | Oes | Na |
| A oes rhywun bob amser yn cau’r lleni neu’r bleindiau ar ddiwedd y dydd?  | Oes | Na |
| A ydych chi’n gwneud yn siŵr bod y drysau a’r ffenestri ar gau pan mae’r gwres ymlaen?   | Ydym | Na |

## Yn eich cymuned

| Ydych chi wedi gwneud arolwg ynni yn y cartref i helpu teuluoedd i ddefnyddio llai o ynni?   | Ydym | Na |
| --- | --- | --- |

## Yn Ein Byd

| Ydy plant yn deall bod ein byd yn cynhesu a bod arbed ynni yn helpu arbed hyn?   | Ydym | Na |
| --- | --- | --- |


**<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>**



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

# Dŵr

## Yn eich ysgol

| | | |
|---|---|---|
| A oes tapiau'n diferu o gwmpas yr ysgol?  | Na | Oes |
| A oes rhai plant yn gadael tapiau i redeg?  | Na | Oes |
| A oes gennych chi rywbeth yn y toiled i arbed dŵr pan yr ydych yn fflysio? (bag Hippo neu botel blastig wedi ei lenwi â dŵr)  | Oes | Na |
| A oes gennych chi rywbeth mawr i ddal dŵr glaw (casgen ddŵr) y tu allan i'r ysgol?  | Oes | Na |
| Os ganddoch chi boteli dŵr yfed yn yr ysgol ? (rhai rydych chi'n eu hailddefnyddio)  | Oes | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi wedi ymchwilio sut gallwch chi arbed dŵr yn y cartref?  | Ydym | Na |

## Yn ein Byd

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n gwybod pam ei bod yn bwysig arbed dŵr a sut mae'n helpu'r blaned?  | Ydym | Na |
| Ydych chi wedi ymchwilio sut mae plant mewn gwledydd eraill yn cael dŵr?  | Ydym | Na |



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?



# Trafnidiaeth

## Yn eich Ysgol

| | | |
|---|---|---|
| A yw hi'n ddiogel i gerdded neu feicio i'r ysgol?   | Ydy | Na |
| A ydych chi'n cyfrif faint o blant sydd yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol?   | Ydym | Na |
| A oes gennych chi fws cerdded neu ddyddiau arbennig pan mae llawer o bobl yn cerdded neu beicio i'r ysgol?   | Oes | Na |
| A oes llawer o geir wedi eu parcio o flaen yr ysgol yn y bore ac amser mynd adre?   | Na | Oes |
| Os yw'r plant yn cael eu nôl o'r Ysgol gan fws neu car, a yw'r gyrwyr yn diffodd yr injan tra maen nhw'n aros?   | Ydyn | Na |
| A yw pawb yn gwybod sut i groesi'r ffordd yn ddiogel?   | Ydyn | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'r ysgol wedi gwneud unrhyw brosiectau i annog teuluoedd i ddefnyddio llai o'r car ar benwythnosau?   | Ydyn | Na |

**Yn ein Byd**

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'r plant i gyd yn gwybod pam mae'n bwysig i ni gerdded, seiclo neu fynd ar sgwter i'r ysgol pan allwn ni, yn lle defnyddio'r car?  | Ydyn | Na |

**<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>**



# Iechyd, Lles a Bwyd

## Yn eich ysgol

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n cael ffrwythau bob dydd yn ystod amser chwarae?  | Ydym | Na |
| A yw'r plant sydd yn cael pecyn cinio yn dod â 2 ddarn o ffrwythau neu lysiau?   | Ydyn | Na |
| A oes salad ar gael gyda'ch cinio ysgol?  | Oes | Na |
| A oes dŵr ar gael i'w yfed yn y dosbarth?   | Oes | Na |
| A oes rhai plant yn tyfu ffrwythau neu lysiau yn yr ysgol ac yna'n eu coginio a'u bwyta?  | Oes | Na |
| A ydych chi'n rhedeg, neidio neu ddawnsio rhywfaint gy-da'ch athro/athrawes neu yn y dosbarth pob dydd?  | Ydym | Na |
| Oes yna gyfle i'r plant edrych ar ôl a gofalu am anifeiliaid yn yr ysgol?  | Oes | Na |
| Os ydych chi'n teimlo'n drist a oes yna rywun i siarad â nhw bob amser?  | Oes | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydy plant yn ymweld â siopau, rhandiroedd neu ffermydd i ddysgu am ein bwyd ac o ble y daw?   | Ydyn | Na |
| Ydy plant yn rhan o brosiectau yn y gymuned leol fel ymweld â chartrefi henoed?    | Ydyn | Na |

## Yn ein Byd


| | | |
|---|---|---|
| Pan mae staff y gegin yn coginio pysgod, ydy'r symbol hwn ar y paced? CERTIFIED SUSTAINABLE SEAFOOD MSC www.msc.org  | Ydy | Na |
| Ydy'r ffrwythau yn siop ffrwythau'r ysgol yn cael eu tyfu'n lleol ac yn dymhorol?   | Ydyn | Na |
| Os ydych chi'n cael hufen iâ gyda'ch cinio ysgol, ydy e'n cynnwys olew palmwydd?   | Na | Ydy |

**Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?**



# Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae'r cwestiynau hyn yn ychwanegol i'r rhai dan bennawd 'Ein Byd' ym mhob un o'r pynciau eraill. Gallwch chi gynnwys bob un pan ydych chi'n edrych ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang.



| | | |
|---|---|---|
| A oes gennych chi ddillad sydd yn cael eu gwisgo gan blant o wledydd eraill er mwyn i chi gael gwisgo i fyny?  | Oes | Na |
| A ydych chi'n cael gwrando ar storiau am blant, anifeiliaid neu bobl o wledydd eraill?  | Ydym | Na |
| A ydych chi weithiau'n bwyta, yn yr ysgol, yr un bwyd ag mae pobl gwledydd tramor yn ei fwyta?  | Ydym | Na |
| A ydych chi'n gwybod beth mae'r symbol hwn yn ei olygu? | Ydym | Na |
| A yw'r athrawon yn yfed te/choffi /siwgwr Masnach Deg?  | Ydyn | Na |
| Ydych chi wedi dysgu am y Nodau Byd-eang? THE GLOBAL GOALS For Sustainable Development | Ydym | Na |
| Ydych chi wedi dysgu am Hawliau'r Plentyn?  | Ydym | Na |
| Ydych chi'n cynnal diwrnodau gweithredu yn rheolaidd i helpu pobl, llefydd neu anifeiliaid eraill?  | Ydym | Na |
| Ydych chi'n casglu ar gyfer banc bwyd lleol?   | Ydym | Na |

<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>



# Tir yr Ysgol

## O amgylch yr ysgol

| | | |
|---|---|---|
| A oes gemau wedi eu paentio ar y buarth chwarae?   | Oes | Na |
| A yw’r waliau o amgylch yr ysgol mewn/tu allan yn llachar a lliwgar?   | Ydyn | Na |
| A oes pethau i ddringo, balansio a chwarae arnynt ar y buarth chwarae?   | Oes | Na |
| A oes cornel ffrindiau neu mainc cyfeillio ar y buarth chwarae?    | Oes | Na |
| Ydych chi’n cael gwersi y tu allan weithiau?   | Ydym | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydy teuleuodd yn helpu gyda tir yr ysgol weithiau?   | Ydynt | Na |
| Ydych chi’n helpu mewn parc neu randir lleol weithiau?   | Ydym | Na |

## Yn ein Byd

| Ydych chi'n chwarae gêmau o wahanol rhannau o'r byd ?   | Ydym | Na |
|---|---|---|





**<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>**



# Bioamrywiaeth


## O amgylch yr ysgol

Pa rai o'r canlynol sydd i weld yn eich ysgol?

| | | |
|---|---|---|
| Pentyrrau o foncyffion  | Pentyrrau o gerrig  | Ardaloedd Gwyllt  |
| Llwyn pili-pala  | Blodau/ perlysiau  | Gwesty Pryfed  |
| Pwll  | Coed  | Gwrych  |
| Cartref Adar  | Cartref Draenog  | Porthwyr Adar  |


| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n gwneud lluniau o'r gwahanol blanhigion ac anifeiliaid a welwch yn yr ysgol, neu'n ysgrifennu eu hen-wau neu'n tynnu llun camera ohonynt?   | Ydym | Na |

## Yn eich cymuned

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'ch chi'n ymweld ag ardaloedd y tu allan i'r ysgol i ddar-ganfod bywyd gwyllt?   | Ydym | Na |

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

**Yn ein Byd**

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi wedi ymuno ag arolwg byd natur genedlaethol? Er enghraifft Gwylio Adar yr Ysgol RSPB Cymru.   | Ydym | Na |
| Ydych chi wedi dysgu am anifeiliaid mewn perygl o amgylch y byd?   | Ydym | Na |

**<u>Os oes gennych chi unrhyw atebion wynebau trist, beth allwch chi wneud i'w gwneud yn wynebau hapus?</u>**

